

POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD



PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

ADRODDIAD AR ADRODDIAD BLYNYDDOL COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Cefndir

Gwnaed yr adroddiad hwn yn unol â dyletswydd statudol y Panel a gynhwysir yn Adran 28(4) (d) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

Adolygiad o Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Ystyriodd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru Adroddiad Blynyddol 2022/2023 y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ei gyfarfod ar 26 Mehefin 2023.

Hwn yw ail adroddiad blynyddol Mr Dunbobbin fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd ers iddo gael ei ethol ym mis Mai 2021, ac mae'n darparu gwybodaeth am y cynnydd cyffredinol yn erbyn blaenoriaethau strategol Cynllun yr Heddlu a Throsedd.

Mae'r adroddiad yn amlygu bod 2022/2023 wedi bod yn flwyddyn heriol arall, ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru a'r heddluoedd eraill yn y DU. Mae'r Comisiynydd yn benderfynol o wneud popeth o fewn ei allu i sicrhau bod cymunedau'r gogledd yn derbyn y gwasanaeth heddlu gorau posibl, ac mae'n gweithio gyda'r Prif Gwnstabl i sicrhau bod y swyddogion a'r staff, nad ydynt yn cyrraedd y safonau uchaf, yn cael eu gyrru allan o'r sefydliad cyn gynted â phosibl. Mae'r Comisiynydd yn cydnabod bod llawer o waith i'w wneud i adennill ffydd y cyhoedd yn yr heddlu, sy'n hanfodol i'r model plismona drwy gysyniad.

Roedd yr adroddiad yn darparu trosolwg o'r canlynol:

- Y galw ar Heddlu Gogledd Cymru yn ystod y 12 mis diwethaf
- Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd mewn ffigyrau
- Troseddau a gofnodwyd yng ngogledd Cymru – mae cyfanswm y troseddau 5.9% yn llai na'r 12 mis diwethaf
- Lansio Strategaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
- Atebolrwydd a dyletswyddau statudol
- Cynnydd amcanion y Cynllun Heddlu a Throsedd
- Cyllido ac arian

Croesawodd y Panel y gostyngiad yn nifer y troseddau yn ystod y 12 mis diwethaf ac fe'u sicrhawyd fod plismona yn y gymdogaeth yn sylfaen i gyflawni'r holl flaenoriaethau eraill yn y Cynllun Heddlu a Throsedd

Roedd y Panel yn teimlo bod yr Adroddiad Blynyddol yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed yn erbyn y blaenoriaethau yn y Cynllun Heddlu a Throsedd.

PENDERFYNWYD-

Bod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru'n derbyn Adroddiad Blynyddol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer 2022/2023.